NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Triniaeth endosgopig er mwyn tynnu trwch llawn polypau colonig nad ydynt yn codi

24 Mai 2017

Nid oes llawer o dystiolaeth ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw. Gellir defnyddio'r driniaeth, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd y pryderon ynghylch ei effeithiolrwydd hirdymor a chymhlethdodau posibl.

Tyfiannau bach sy'n ffurfio ar wal y coluddyn mawr yw polypau colonig. Mae polypau colonig nad ydynt yn codi yn ddyfnach yn y wal, felly maent yn anodd i'w tynnu, ac yn fwy tebygol o droi'n ganseraidd os na chânt eu trin. Yn ystod triniaeth endosgopig er mwyn tynnu trwch llawn, caiff dyfais arbennig ei phasio drwy golonsgop (tiwb tenau, hyblyg a chamera ar y pen sy'n cael ei fewnosod drwy'r anws i mewn i'r coluddyn mawr), ac sy'n cael ei ddefnyddio i dynnu'r polyp a selio wal y coluddyn ar gau wedyn. Y nod yw tynnu'r polypau yn haenau dyfnach y coluddyn heb adael twll yn y coluddyn.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2500-1

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights